------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Michael Kay**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru


## Agenda - Dogfennau Ategol

Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

### 3 Diwygiad Lles: Sesiwn dystiolaeth 5 (09:10-10:15) (Tudalennau 1 - 11)

PAC(4)-15-15 Papur 1
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

June Milligan - Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru
John Howells - Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
Sara Ahmad - Economegydd, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru

### 6 Rhagnodi gan Feddygon Teulu: Gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (10:35-11:00) (Tudalennau 12 - 31)

PAC(4)-15-15 Papur 2

Eitem 3

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | HVT2326/caf |
| **Dyddiad** | 20 Mai 2015 |
| **Tudalennau** | **1** o **11** |

Annwyl Darren

## DIWEDDARIAD AR Y DEFNYDD O DALIADAU TAI YN ÔL DISGRESIWN GAN GYNGHORAU YNG NGHYMRU YN 2014-15 A'R BROSES O'U RHEOLI

Ym mis Ionawr 2015, fel rhan o'm hadroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, adolygais y defnydd o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn (TTD) gan gynghorau yng Nghymru, a'r broses o'u rheoli, gan ddod i'r casgliad bod y gwaith o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn yn anghyson ac yn wan a hynny'n sylweddol.

Fel rhan o'm rhaglen archwilio o fewn llywodraeth leol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi parhau i adolygu materion yn ymwneud â thaliadau tai yn ôl disgresiwn i bobl sy'n cael budd-dal tai ond sydd angen cymorth ychwanegol gyda rhent neu gostau tai. Pan ysgrifennais atoch ar 2 Mawrth 2015, addewais rannu canfyddiadau'r gwaith hwn â PCC er mwyn llywio ymchwiliad presennol y Pwyllgor sef *Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru*. Isod, rhoddir diweddariad ar berfformiad Cynghorau yn 2014-15 ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan y 22 o gynghorau yng Nghymru yn ogystal ag adolygiad o wybodaeth gyhoeddedig a'r broses o reoli TTD.

**Ni chaiff y gwaith o ddosbarthu taliadau tai yn ôl disgresiwn ei lywio gan angen o hyd**

Yn fy marn i, ni chaiff y gwaith o ddosbarthu TTD ei lywio gan angen o hyd. Dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, mae'r arian a fuddsoddir mewn TTD yng Nghymru wedi cynyddu 215 y cant, o £2.5 miliwn yn 2012-13; i £7.6 miliwn yn 2013-14; a

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@archwilio.cymru

£7.9 miliwn yn 2014-15. Roedd yr amrywiaeth o gyllid TTD yn 2014-15 yn amrywio o £127,731 yn Sir Fynwy i £1,175,868 yng Nghaerdydd (Gweler Arddangosyn 1 ynghlwm).

Mae gan rai o'r cynghorau sydd â'r nifer lleiaf o denantiaid tai cymdeithasol y cafodd y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr effaith arnynt ddyraniadau uwch o TTD yn ôl cyfran - er enghraifft, Powys a Gwynedd. Yn baradocsaidd, mae rhai o'r cynghorau sydd â'r nifer mwyaf o denantiaid tai cymdeithasol yr effeithiodd y newidiadau hyn arnynt wedi cael llai o TTD. Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot, yn y drefn honno, sydd â'r ail i'r pumed nifer mwyaf o denantiaid tai cymdeithasol y cafodd y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr effaith arnynt. Fodd bynnag, o ran dyrannu TTD, mae'r swm sydd ar gael iddynt yn llawer llai yn gymharol (Gweler Arddangosyn 2 ynghlwm).

**Mae perfformiad cynghorau wrth ddefnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn i gynorthwyo pobl gyda'u costau tai yn amrywio'n sylweddol**

O'r £7.9 miliwn a ddyrannwyd i TTD yn 2014-15, roedd £6.5 miliwn wedi'i ymrwymo erbyn diwedd mis Tachwedd 2014. O ran perfformiad cynghorau wrth ymrwymo TTD, roedd cyfran cyllidebau TTD cynghorau unigol a wariwyd ar ddiwedd mis Tachwedd 2014 yn amrywio o 52.3 y cant yn Sir Gaerfyrddin i 127.3 y cant yn Nhorfaen. Y lefel gyfartalog o TTD a ymrwymwyd gan y 22 o gynghorau yng Nghymru oedd 82.6 y cant (Gweler Arddangosyn 3 ynghlwm).

Cafodd 18,887 o aelwydydd TTD gan gynghorau yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2014. Roedd nifer y bobl a gafodd gymorth yn amrywio o 228 o ymgeiswyr yn Sir y Fflint i 2,158 yn Nhorfaen. Dyraniad cyfartalog TTD fesul cleient ar gyfer yr holl gynghorau yng Nghymru ar ddiwedd mis Tachwedd 2014 oedd £345. Cafwyd y cyfartaledd isaf yn Nhorfaen, sef £133, a chafwyd yr uchaf yn Sir y Fflint, sef £1,000 (Gweler Arddangosyn 4 isod).

O ystyried y gwahaniaeth rhwng y swm a wariwyd a'r niferoedd a gynorthwywyd, mae fy nadansoddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaethau mawr yn hyblygrwydd cynghorau wrth ddarparu TTD a faint o gymorth ariannol y maent yn barod i'w roi i ymgeiswyr. Er enghraifft, mae Torfaen a Sir Fynwy yn gwario llai na £150 ar gyfartaledd fesul ymgeisydd ac maent yn ceisio cynyddu'r nifer a gynorthwyir. I'r gwrthwyneb, mae Sir y Fflint yn darparu grant o £1,000 sy'n fwy na'r cyfartaledd ond mae'n helpu llai o bobl (Gweler Arddangosyn 5 ynghlwm).

**Mae anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y mae cynghorau yn gweinyddu taliadau**

Yn y rhan fwyaf o gynghorau, mae'n dal yn anodd dod o hyd i ddolen uniongyrchol i'r dudalen TTD ar wefan awdurdod, ac mewn dau gyngor nid oedd y fath dudalen yn bodoli. Lle'r oedd gwybodaeth ar gael, mae'r ansawdd hefyd yn amrywio'n sylweddol a gall fod yn gamarweiniol yn aml. Er enghraifft, gwelsom fod gan bum cyngor wybodaeth ar eu gwefan a oedd yn nodi'n anghywir fod TTD ar gael i helpu ymgeiswyr i dalu'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn anghywir am fod Budd-dal y Dreth Gyngor yn daliad eithriedig fel y nodir yng nghanllawiau statudol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn dilyn adborth gan fy staff, mae pob un o'r cynghorau hyn bellach wedi diwygio eu gwybodaeth i'r cyhoedd ac wedi cadarnhau na wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â'r Dreth Gyngor.

Defnyddir ystod eang o brosesau gwneud cais am TTD gan gynghorau hefyd. Nid oedd gan un cyngor ffurflen gais ac roedd, yn syml, yn gofyn i ddarpar ymgeiswyr egluro'n ysgrifenedig pam bod angen cymorth arnynt. Mewn eraill, roedd y lefel o wybodaeth yr oedd angen i ymgeiswyr ei rhoi yn amrywio o gwblhau ffurflen gais dwy dudalen i ffurflen gais deg tudalen.

Roedd nifer o gynghorau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi gwybodaeth yn ychwanegol i'r ffurflen gais. Roedd hyn yn amrywio o grynodeb incwm a gwariant un dudalen i sawl tudalen o wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ffurflenni cais yn gofyn am yr un dystiolaeth gan ymgeisydd â'r hyn yr oedd ei angen ar adeg gwneud cais am Fudd-dal Tai ac roedd y system yn dyblygu gwybodaeth. Mae hyn yn gosod baich diangen ar ymgeiswyr ac nid yw'n eu hannog i wneud cais am TTD.

Yn ogystal, roedd angen i'r rhan fwyaf o ffurflenni cais ar-lein gael eu hargraffu a'u cwblhau â llaw ac nid oedd y rhan fwyaf o gynghorau yn cynnig proses gwneud cais ar-lein ddigidol. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i ymgeisydd wneud cais am TTD ond gall hefyd greu mwy o waith i'r cyngor sy'n cael y cais, yn enwedig os oes ganddo system rheoli dogfennau ddigidol. Os bydd ffurflen gais yn hir ac yn anodd i'w chwblhau, yna bydd yn fwy tebygol na fydd unigolyn agored i niwed yn gwneud cais am TTD.

**Nid yw gwybodaeth allweddol am daliadau tai yn ôl disgresiwn bob amser ar gael i'r cyhoedd ac nid yw cynghorau bob amser yn nodi eu blaenoriaethau lleol er mwyn helpu pobl ag anghenion tai ac anghenion ariannol**

O gofio'r cynnydd mewn adnoddau ar gyfer TTD a'r nifer fawr o bobl sydd angen cymorth ariannol, mae'n briodol i gynghorau nodi'n glir y flaenoriaeth gymharol a roddir i grwpiau gwahanol pan fyddant yn penderfynu p'un a ddylid dyrannu TTD yn eu hardal. Yn wir, mae canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi y bydd angen i gynghorau ystyried y ffordd orau o dargedu'r arian o fewn eu grwpiau â blaenoriaeth. Yn fy adolygiad yn 2013-14, nodais nad oedd 17 o gynghorau yn darparu eu polisi TTD i ymgeiswyr. Nododd fy nadansoddiad o wybodaeth

gyhoeddus yn 2014-15 mai dim ond chwe chyngor oedd yn darparu eu polisi ar-lein, a dim ond dau gyngor oedd â pholisi gwrthdlodi ar waith neu'n cysylltu'r defnydd o TTD â strategaeth les.

Nid oes llawer o gynghorau wedi diffinio eu blaenoriaethau'n glir mewn llenyddiaeth sydd ar gael i'r cyhoedd o hyd. Mae'r gwendid hwn yn ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, i asesu p'un a yw TTD yn opsiwn hyfyw i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai yn y tymor byr. Mae'r prinder manylion presennol am flaenoriaethau lleol hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorau sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cyson, sef un o ofynion allweddol canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Hefyd, er bod 20 o'r 22 o gynghorau bellach yn cynnwys gwybodaeth am hawl ymgeiswyr i gael adolygiad neu i apelio os byddant yn anfodlon ar benderfyniad gwreiddiol y cyngor ar eu cais, mae cadernid prosesau adolygu yn dal i amrywio'n sylweddol.

Mae gwendidau deunyddiau cyhoeddus ac amrywiadau lleol mewn polisi yn golygu y gall pobl sydd ag anghenion o ran tai ac sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent, gael safonau gwahanol iawn o wasanaeth oherwydd y fformiwla a ddefnyddir i ddosbarthu TTD. Hefyd, am fod gan gynghorau gryn ddisgresiwn i ddewis sut yr hoffent weinyddu eu dyraniad TTD, gall pobl sydd â'r un anghenion gael safonau gwahanol iawn o wasanaeth yn seiliedig ar ble y maent yn byw ac nid eu hamgylchiadau neu'u hanghenion.

**Erys trefniadau cynghorau i fonitro a gwerthuso taliadau tai yn ôl disgresiwn yn wan**

Roedd gan bob cyngor systemau ar waith i fonitro TTD, gan gynnwys faint o arian sydd ar gael i dalu ymgeiswyr, nifer y bobl sydd wedi cael cymorth a faint o arian sydd ar ôl yn y cynllun. Fodd bynnag, erys gwendidau. Er enghraifft:

- dim ond saith Cyngor a nododd sawl landlord a gafodd gymorth er mwyn sicrhau bod pob sector a maes yn cael ei gwmpasu'n dda;
- dim ond deg cyngor sy'n monitro pa mor gyflym y caiff ceisiadau eu prosesu a pha mor hir y mae'n cymryd iddynt wneud taliad; a
- dim ond naw cyngor sy'n mesur effaith TTD a ph'un a ydynt yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ac yn helpu'r unigolyn i aros yn ei gartref.

O ystyried y cyfyngiadau hyn wrth fonitro a gwerthuso TTD, mae'n anodd i gynghorau wybod p'un a yw'r taliadau y maent yn eu gwneud yn mynd i'r rheini sydd angen cymorth fwyaf.

**Y dyfodol**

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nodwyd bod 20 o Gynghorau bellach yn cydweithio i safoni eu dull o weinyddu TTD sy'n cynnwys ffurflen gais symlach a hygyrch a pholisi TTD a rennir. Bydd y cynghorau hyn yn defnyddio'r fframwaith newydd ochr yn ochr â chanllawiau presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yn anelu at sicrhau y cymerir camau teg a chyson wrth benderfynu pwy a gaiff flaenoriaeth o ran TTD wrth i'r fframwaith newydd gael ei gyflwyno o fis Ebrill 2015.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Arddangosyn 1: Cyllidebau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru rhwng 2012-13 a 2014-15

Cynyddodd y gyllideb 215 y cant rhwng 2012-13 a 2014-15


| Awdurdod Lleol | Cyfanswm TTD 2012-13 | Cyfanswm TTD 2013-14 | Cyfanswm TTD 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | £43,585 | £134,545 | £127,731 |
| Merthyr Tudful | £32,332 | £138,442 | £147,339 |
| Ynys Môn | £65,539 | £145,357 | £156,027 |
| Blaenau Gwent | £49,846 | £176,905 | £199,387 |
| Sir Benfro | £94,040 | £210,933 | £204,952 |
| Torfaen | £56,709 | £220,891 | £244,222 |
| Wrecsam | £43,395 | £224,743 | £225,644 |
| Sir Ddinbych | £102,787 | £229,514 | £202,519 |
| Bro Morgannwg | £99,466 | £236,441 | £244,892 |
| Conwy | £131,108 | £257,008 | £217,097 |
| Sir y Fflint | £114,426 | £262,343 | £276,166 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £118,999 | £304,458 | £310,253 |
| Sir Gaerfyrddin | £116,968 | £307,637 | £346,717 |
| Caerffili | £66,516 | £330,623 | £382,715 |
| Ceredigion | £102,788 | £332,118 | £287,605 |
| Castell-nedd Port Talbot | £130,358 | £348,443 | £371,784 |
| Casnewydd | £109,584 | £380,608 | £408,949 |
| Rhondda Cynon Taf | £170,679 | £495,257 | £541,416 |
| Powys | £61,596 | £528,762 | £560,638 |
| Abertawe | £201,137 | £531,158 | £528,985 |
| Gwynedd | £150,474 | £621,321 | £733,297 |

| Awdurdod Lleol | Cyfanswm TTD 2012-13 | Cyfanswm TTD 2013-14 | Cyfanswm TTD 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | £444,302 | £1,203,788 | £1,175,868 |

*Ffynhonnell: Adroddiad gan Dasglu Llywodraeth Cymru, Chwefror 2014 ac arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn awdurdodau lleol, Rhagfyr 2014.*

Arddangosyn 2: Nifer y bobl y cafodd y penderfyniad i ddiddymu'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr effaith arnynt o gymharu â'r swm o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a ddyfarnwyd i'r Cyngor ar ddiwedd mis Tachwedd 2014


Mae swm y TTD sydd gan gynghorau yn amrywio'n fawr, ac ni chaiff arian ei ddyrannu ar sail angen




*Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE), drwy Stat-Xplore, Tachwedd 2014 ac arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn awdurdodau lleol, Rhagfyr 2014*

## Arddangosyn 3: Cyfran y Gyllideb Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a ymrwymwyd ar ddiwedd mis Tachwedd 2014


Roedd cynghorau yng Nghymru wedi gwario 82.6 y cant o'r gyllideb TTD dybiannol a ddyrannwyd erbyn diwedd mis Tachwedd 2014




*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn awdurdodau lleol, Rhagfyr 2014*

Arddangosyn 4: Nifer yr ymgeiswyr a oedd yn cael Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan y Cyngor ar ddiwedd mis Tachwedd 2014


Roedd cynghorau wedi rhoi arian TTD i fwy na 18,000 o aelwydydd erbyn diwedd mis Tachwedd 2014




*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn awdurdodau lleol, Rhagfyr 2014*

Arddangosyn 5: Nifer yr ymgeiswyr a oedd yn cael Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan y Cyngor a'r dyfarniad cyfartalog fesul ymgeisydd erbyn diwedd mis Tachwedd 2014

Mae'r swm cyfartalog o TTD a dalwyd i ymgeiswyr yn amrywio'n sylweddol o £133 i £1,000




*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn awdurdodau lleol, Rhagfyr 2014*

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon